Hawdd ei Ddeall

# Ein cynllun i helpu mwy o bobl i gymryd rhan yn y celfyddydau yng Nghymru


Elevator, Gŵyl Undod 2016, Hijinx (llun: Jonathan Dunn)

Fersiwn hawdd ei ddeall yw hwn o '**Gynllun Cydraddoldeb Strategol 2017-2021'** Cyngor Celfyddydau Cymru

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Noddir gan **Lywodraeth Cymru**
Sponsored by **Welsh Government**

Yn dyfarnu arian / Awarding funds from
Y LOTERI GENEDLAETHOL
THE NATIONAL LOTTERY®

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon

Fersiwn hawdd ei ddeall yw hwn. Mae'r geiriau a'r hyn maen nhw'n feddwl yn hawdd i'w darllen a'u deall. Efallai na fedrwch chi ddarllen a deall y ddogfen hon heb help. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.

Efallai bydd rhai geiriau yn anodd i'w deall. Mae'r rhain wedi cael eu hysgrifennu mewn **glas trwm** a dywedir beth maen nhw'n feddwl mewn bocs o dan y gair.

Os bydd unrhyw un o'r geiriau yn cael ei ddefnyddio eto yn y llyfryn bydd yn cael ei ddangos mewn ysgrifennu glas cyffredin. Os gwelwch chi eiriau mewn ysgrifennu glas cyffredin, gallwch edrych beth maen nhw'n feddwl yn **Geiriau anodd** ar dudalen 29.

Pan fydd y ddogfen yn dweud 'ni', mae hyn yn meddwl **Cyngor Celfyddydau Cymru**. I gael mwy o gopïau cysylltwch â:

Cyngor Celfyddydau Cymru
Plas Bute
Caerdydd, CF10 5AL

Ffôn: 0845 8734 900

SMS: 07797800504
Dim ond talu am y pris arferol am neges

E-bost: gwybodaeth@celf.cymru

Gwefan: http://www.celf.cymru

Cafodd y ddogfen hon ei gwneud yn hawdd ei deall gan Anabledd Dysgu Cymru gan ddefnyddio Photosymbols.

# Cynnwys

**Tudalen**


**Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon .................................................. 2**

**Cyflwyniad .................................................................................. 4**

**Amcan cydraddoldeb 1 ................................................................ 9**

**Amcan cydraddoldeb 2 ................................................................ 13**

**Amcan cydraddoldeb 3 ................................................................ 17**

**Amcan cydraddoldeb 4 ................................................................ 20**

**Amcan cydraddoldeb 5 ................................................................ 25**

**Geiriau anodd ............................................................................. 29**

# Cyflwyniad



Mae arnon ni eisiau i'r celfyddydau fod ar gyfer pawb.

Rydyn ni wedi gwneud llawer o waith yn y gorffennol i wneud y celfyddydau yn fwy cyfartal. Ond mae arnon ni angen gwneud mwy.



Rydyn ni wedi dod i wybod nad yw pobl o **grwpiau gwarchodedig** yn cymryd rhan mewn gwirionedd.




**Grwpiau gwarchodedig** – mae'r rhain yn grwpiau o bobl mae'r gyfraith yn eu hamddiffyn rhag cael eu trin yn annheg oherwydd pwy ydyn nhw. Er enghraifft, menyw sy'n cael ei thrin yn annheg oherwydd ei bod yn disgwyl babi.

Y grwpiau gwarchodedig yw:




- Pobl o wahanol oedrannau.



- Pobl anabl. Mae'r rhain yn cynnwys pobl sydd â phroblemau iechyd meddwl – sydd angen cefnogaeth â'u meddyliau a'u teimladau.



- Menywod sy'n disgwyl babi neu'n bwydo o'r fron.



- Pobl o wahanol grefyddau.



- Menywod **lesbiaidd** – menywod sy'n cael eu denu gan fenywod eraill.



- Dynion **hoyw** – dynion sy'n cael eu denu gan ddynion eraill.



- Dynion a menywod **deurywiol** – pobl sy'n cael eu denu gan ddynion a menywod.



- Dynion a menywod.



- Pobl **drawsrywiol**.

**Pobl drawsrywiol** – pobl sy'n cael eu geni fel un rhyw ond sydd am fyw fel y rhyw arall. Er enghraifft, gall person sy'n edrych fel dyn o'r tu allan deimlo fel menyw o'r tu mewn.



- Pobl sydd wedi priodi neu sydd mewn partneriaeth sifil.



- Pobl ddu, pobl Asiaidd a phobl o Leiafrifoedd Ethnig.

**Lleiafrifoedd Ethnig** – mae person o leiafrif ethnig yn rhywun sy'n byw mewn lle ble mae'r rhan fwyaf o'r bobl eraill o wahanol hil.



Mae angen meddwl yn ofalus er mwyn helpu grwpiau gwarchodedig i gymryd rhan yn y celfyddydau. Ac i wneud celfyddyd yn fwy teg.



Rydyn ni'n pryderu'n fwy na dim am y nifer isel o bobl anabl a phobl o leiafrifoedd ethnig sy'n gweithio o fewn y celfyddydau.




Yn y cynllun hwn fe fyddwn ni'n siarad am bum **amcan cydraddoldeb**.



Mae ein **hamcanion cydraddoldeb** yn bethau pwysig y mae'n rhaid i ni eu gwneud er mwyn i'r celfyddydau fod yn decach i bawb.




Rydyn ni wedi gweithio'n galed i gael gwybodaeth am gydraddoldeb yn y celfyddydau. Rydyn ni wedi casglu gwybodaeth am gydraddoldeb yn y celfyddydau trwy:

- gynlluniau a pholisïau
- gwneud ceisiadau am arian
- adroddiadau
- arolygon.



Rydyn ni wedi defnyddio'r wybodaeth hon i ddewis ein hamcanion cydraddoldeb.




Mae'r cynllun hwn yn dweud beth y byddwn ni'n ei wneud dros y pum mlynedd nesaf i gwrdd â'n hamcanion cydraddoldeb.

# Amcan cydraddoldeb 1

## Gwneud yn siŵr bod pobl o fewn sector y celfyddydau yn gwybod am gydraddoldeb



Mae arnon ni eisiau i bobl wybod am faterion cydraddoldeb er mwyn iddyn nhw fedru ein helpu ni i wneud y celfyddydau'n decach.



Mae arnon ni eisiau gwneud mwy er mwyn gwneud pobl yn ymwybodol o'n hamcanion cydraddoldeb.

# Y pethau y byddwn ni'n eu gwneud



Gweithio'n galed i roi gwybodaeth i bobl ynglŷn â'r ffordd orau i wella cydraddoldeb ac amrywioldeb.



Gofyn i bobl am eu barn ynglŷn â'n gwaith a'n polisïau. Yn enwedig ein gwaith a'n polisïau sy'n cael effaith ar grwpiau gwarchodedig.



Gwneud yn siŵr bod gan ein staff y medrau i hyrwyddo cydraddoldeb. A'u bod yn medru siarad â'r mudiadau rydyn ni'n eu cefnogi a'u herio ynglŷn â materion cydraddoldeb.



Gwneud yn siŵr bod gan ein staff y cyfle i fynd am hyfforddiant ynglŷn â chydraddoldeb.



Gwneud yn siŵr bod ein **Grŵp Monitro Cydraddoldebau** yn cadw llygad arnon ni o ran pa mor dda rydyn ni'n gwneud â'n hamcanion cydraddoldeb.



Gwneud yn siŵr bod pawb yn gwirio cydraddoldeb yn yr un ffordd.

## Y ffordd y byddwn ni’n gwneud hyn



Fe fyddwn ni’n dal ati i siarad â phobl ac yn eu holi am gydraddoldeb yn ein digwyddiadau.



Fe fyddwn ni’n hyrwyddo cydraddoldeb o fewn y celfyddydau yn ein cynhadledd genedlaethol.



Fe fyddwn ni’n creu ffordd newydd o wirio ein gwaith o ran cydraddoldeb. Ac fe fyddwn ni’n rhannu’r ffyrdd gorau o weithio ar ein gwefan, mewn adroddiadau ac mewn digwyddiadau.




Rydyn ni wedi ysgrifennu dwy ddogfen o’r enw **Arweiniad Cydraddoldeb** a **Lle Cyfartal.**




Mae’r dogfennau hyn yn rhoi cyngor a gwybodaeth am gydraddoldeb o fewn y celfyddydau.




Fe fyddwn ni’n rhannu’r dogfennau hyn. Ac yn rhoi cefnogaeth i fudiadau i ddefnyddio’r dogfennau hyn i wneud eu gwaith yn fwy teg.




Fe fyddwn ni’n cael cyngor ynghylch gwneud ein gwefan yn hawdd ei defnyddio. Fe fyddwn ni’n gwneud yn siŵr ein bod yn cyfathrebu mewn ffordd hawdd ei deall.



Fe fyddwn ni’n gofyn am help a chyngor ynghylch cyrraedd ein hamcanion cydraddoldeb.

# Amcan cydraddoldeb 2

## Cael gwahanol fathau o bobl yn gweithio yn y celfyddydau



Mae arnon ni eisiau i'n gweithwyr fod mor amrywiaethol â'r bobl sy'n byw yng Nghymru.



Does dim llawer o bobl o'r grwpiau gwarchodedig yn gweithio o fewn y celfyddydau.




Does dim llawer o bobl anabl na phobl o leiafrifoedd ethnig yn gweithio yn y celfyddydau yn benodol.



Mae arnon ni angen arweinwyr yn y celfyddydau i gymryd mwy o gyfrifoldeb i wneud i newid ddigwydd.

# Y pethau y byddwn ni'n eu gwneud

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales



Fe fyddwn ni'n gwneud yn siŵr bod staff Cyngor y Celfyddydau yn cynnwys gwahanol fathau o bobl.

Fe fyddwn ni'n gwneud yn siŵr bod ein staff yn deall materion cydraddoldeb. A'u bod yn gwybod sut i gefnogi'r celfyddydau er mwyn bod yn decach.



Fe fyddwn ni'n canolbwyntio ar gael mwy o bobl anabl a phobl o leiafrifoedd ethnig i weithio yn y celfyddydau.



Fe fyddwn ni'n cefnogi rôl pobl lesbiaidd, hoyw a deurywiol. A hefyd pobl sy'n drawsrywiol.



Fe fyddwn ni'n gwneud yn siŵr bod artistiaid anabl ac artistiaid o leiafrifoedd ethnig yn cael y cyfle i greu ac arddangos eu gwaith.



Fe fyddwn ni'n helpu'r mudiadau rydyn ni'n eu cefnogi i gael gwahanol fathau o bobl i weithio iddyn nhw.

# Y ffordd y byddwn ni'n gwneud hyn




Fe fyddwn ni'n rhoi cynnig ar ffyrdd newydd o recriwtio pobl i weithio i ni. I'n helpu fe fyddwn ni'n edrych sut y mae mudiadau eraill wedi recriwtio gweithwyr amrywiaethol.



Fe fyddwn ni'n hyfforddi staff i fod yn hyrwyddwyr cydraddoldeb ac amrywioldeb.



Fe fyddwn ni'n cadw ein **Rhaglen 'Creative Business and Organisational Development'** yn rhedeg. Mae'r rhaglen hon yn cefnogi mudiadau celfyddyd ar gyfer anableddau a lleiafrifoedd ethnig.




Fe fyddwn ni'n gwneud yn siŵr ein bod ni'n cael arian sydd ar gyfer artistiaid o'r grwpiau gwarchodedig yn unig.




Fe fyddwn ni'n dal ati i gefnogi'r **Rhaglen Comisiynau Heb Ffiniau**. Cynllun yw hwn i gefnogi artistiaid a mudiadau anabl.



Fe fyddwn ni'n edrych sut mae **Rhaglen Datblygu Artistiaid y Lleiafrifoedd Ethnig** yn gweithio.  Fe fyddwn ni'n edrych sut i'w wneud o'n hyd yn oed gwell

Rydyn ni'n **Hyrwyddwr Stonewall Cymru**. Rydyn ni'n gweithio gyda **Stonewall Cymru** i fod y gorau gallwn ni fel gweithle ar gyfer pobl hoyw, lesbiaid a phobl deurywiol.



Fe fyddwn ni'n dal ati i wneud hyn. Bydd hyn yn ein helpu i fod y lle gorau i weithio i bawb.




Fe fyddwn ni'n gwneud yn siŵr bod gan y mudiadau rydyn ni'n eu cefnogi gynllun ar gyfer cydraddoldeb. Ni fyddwn ni'n rhoi arian iddyn nhw os nad oes ganddyn nhw gynllun.



Fe fyddwn ni'n edrych ar y mathau o fudiadau rydyn ni'n rhoi arian iddyn nhw. Fe fyddwn ni'n edrych a oes angen i ni newid y mudiadau rydyn ni'n rhoi arian iddyn nhw, i helpu i wneud y celfyddydau'n decach.




Fe fyddwn ni'n hyrwyddo ein dogfennau ynglŷn â chydraddoldeb – **Arweiniad Cydraddoldeb** a **Lle Cyfartal**.

# Amcan cydraddoldeb 3

## Gwneud yn siŵr bod pob math o bobl yn cael eu cynrychioli mewn rolau arwain



Does dim llawer o bobl o’r grwpiau gwarchodedig mewn rolau arwain yn sector y celfyddydau.




Mae arnon ni eisiau cael mwy o bobl o’r grwpiau gwarchodedig mewn rolau arwain erbyn 2021.

# Y pethau y byddwn ni'n eu gwneud

Cynnwys materion cydraddoldeb ac amrywioldeb yn y gwaith rydyn ni'n ei wneud i wella **Byrddau** y mudiadau rydyn ni'n gweithio gyda nhw.



Mae **Bwrdd** yn grŵp o bobl sy'n gwneud penderfyniadau ar gyfer mudiad ynglŷn â'r gwaith mae'r mudiad yn ei wneud a sut mae'r mudiad yn cael ei redeg.

Gofyn i'r mudiadau rydyn ni'n eu cefnogi i wneud yn siŵr bod gan eu Byrddau wahanol fathau o bobl arnyn nhw.



Gwneud yn siŵr bod y mudiadau rydyn ni'n eu cefnogi, sy'n cael arian gennym ni, yn hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywioldeb.



Chwilio am storïau ynghylch y ffyrdd gorau o weithio a rhannu'r storïau hyn.



Ysgrifennu cynllun ar gyfer cael gwahanol fathau o bobl mewn rolau arwain yn sector y celfyddydau.




Gwneud yr amcan cydraddoldeb hwn yn un o'r pethau mwyaf pwysig i'w gwneud yn 2017.

# Y ffordd y byddwn ni'n gwneud hyn




Byddwn yn gwneud yn siŵr bod gan y mudiadau rydyn ni'n eu cefnogi gynlluniau cydraddoldeb cyn i ni roi arian iddyn nhw.



Mae arnon ni eisiau i'r cynlluniau hyn ddweud beth y byddan nhw'n wneud i gael gwahanol fathau o bobl ar eu Byrddau.



Fe fyddwn ni'n cefnogi mudiadau i gael gwahanol fathau o bobl ar eu Byrddau.



Fe fyddwn ni'n edrych sut y byddwn ni'n dewis mudiadau i roi arian iddyn nhw. Fe fyddwn ni'n meddwl tybed a oes angen i hyn gael ei newid i helpu i gael gwahanol fathau o bobl fel arweinwyr.




Fe fyddwn ni'n gwneud yn siŵr bod pobl yn gwybod am ein dogfennau **Arweiniad Cydraddoldeb** a **Lle Cyfartal**.



Fe fyddwn ni'n gweithio gyda mudiadau eraill ar gynllun sy'n canolbwyntio ar gydraddoldeb mewn arweiniad yn y celfyddydau.

# Amcan cydraddoldeb 4

## Cael gwahanol fathau o bobl i fwynhau celfyddydau



Mae mwy o ddigwyddiadau celfyddyd wedi eu bwriadu ar gyfer pobl anabl.



Ond mae'r nifer o bobl anabl sy'n mynd i ddigwyddiadau celfyddyd yn mynd i fyny ac i lawr.



Mae mwy o ddigwyddiadau celfyddyd wedi eu bwriadu ar gyfer pobl lleiafrifoedd ethnig hefyd.



Ond mae'r nifer o bobl o leiafrifoedd ethnig sy'n mynd i ddigwyddiadau'r celfyddydau wedi mynd i lawr.



Rydyn ni’n meddwl bod y niferoedd yn mynd i fyny ac i lawr gan ddibynnu ar y gwaith rydyn ni’n wneud ar y pryd.



Weithiau rydyn ni’n canolbwyntio ar bobl anabl a phobl o leiafrifoedd ethnig ac wedyn mae’r niferoedd yn mynd i fyny.



Mae hyn yr un fath ar draws y grwpiau gwarchodedig.



Mae arnon ni eisiau gwneud yn siŵr bod y gwahanol fathau o bobl i gyd yn mwynhau celfyddyd drwy’r amser.

# Y pethau y byddwn ni'n eu gwneud



Gwneud gwaith sydd wedi'i fwriadu ar gyfer pobl anabl a phobl o leiafrifoedd ethnig i gynyddu'r nifer o bobl o'r grwpiau hyn sy'n mwynhau celfyddyd.



Gwneud gwaith sydd wedi'i fwriadu ar gyfer pobl hŷn i gynyddu'r nifer o bobl hŷn sy'n mwynhau celfyddyd.




Gwneud yn siŵr y byddwn ni'n rhoi arian ar gyfer digwyddiadau y gall llawer o wahanol fathau o bobl eu mwynhau.



Gwneud yn siŵr bod y mudiadau rydyn ni'n eu cefnogi yn cael pobl o'r grwpiau gwarchodedig i gymryd rhan yn eu celfyddyd.




Gosod targedau y gall pawb weithio tuag atyn nhw i gael mwy o bobl o wahanol grwpiau i gymryd rhan.

# Y ffordd y byddwn ni'n gwneud hyn




Mae gennym ni gynllun cerdyn anabledd ar gyfer lleoliadau celfyddyd. Mae'n cael ei alw'n **Hynt**.



Mae **Hynt** yn ei gwneud hi'n haws i bobl sydd angen cefnogaeth fynd i  ddigwyddiadau celfyddyd.



Fe fyddwn ni'n dal ati gyda **Hynt** ac yn cadw llygad i weld pa mor dda mae'n gweithio.




Fe fyddwn ni'n rhoi arian i rai lleoliadau celfyddyd i'w helpu i wneud eu gwaith. Rydyn ni wedi bod yn ceisio gwneud lleoliadau celfyddyd yn haws eu defnyddio gyda'r arian hwn.



Ond nid oes llawer wedi digwydd gyda hyn eto. Fe fyddwn ni'n cael adborth gan y lleoliadau ac yn meddwl beth arall allwn ni wneud.




Fe fyddwn ni'n gwneud yn siŵr bod gan y mudiadau rydyn ni'n eu cefnogi gynllun ar gyfer cydraddoldeb. Fyddwn ni ddim yn rhoi arian iddyn nhw os nad oes ganddyn nhw gynllun.




Fe fyddwn ni'n defnyddio'r cynlluniau hyn i weld a yw swyddi yn y celfyddydau'n gyfartal.




Fe fyddwn ni'n edrych pa waith y mae'r mudiadau'n bwriadu ei wneud er mwyn i'w gwaith fod yn decach. Fe fyddwn ni'n eu cefnogi â'r gwaith hwn.





Fe fyddwn ni'n defnyddio ein sesiynau gwybodaeth ynghylch ariannu i ddysgu am faterion cydraddoldeb. Fe fyddwn ni'n gwneud yn siŵr bod pobl o grwpiau gwarchodedig yn dod i'r sesiynau hyn.




Fe fyddwn ni'n gwneud yn siŵr bod pobl yn gwybod am ein dogfennau **Arweiniad Cydraddoldeb** a **Lle Cyfartal**. Maen nhw'n rhoi cyngor a gwybodaeth ynglŷn â chydraddoldeb yn y celfyddydau.

# Amcan cydraddoldeb 5

## Cael gwahanol fathau o bobl i gymryd rhan yn y celfyddydau



Mae nifer y gwahanol fathau o bobl sy'n cymryd rhan yn ein sesiynau celfyddyd yn mynd i fyny ac i lawr.



Rydyn ni'n poeni am y nifer fechan o bobl o leiafrifoedd ethnig sy'n cymryd rhan.




Mae'r niferoedd yn mynd i fyny ac i lawr gan ddibynnu ar y gwaith rydyn ni'n wneud ar y pryd.



Mae arnon ni eisiau edrych beth yn union sy'n gwneud i'r nifer o bobl sy'n cymryd rhan fynd i fyny ac i lawr.



Pan fyddwn ni'n deall hyn, fe fyddwn ni'n gwybod beth sydd arnon ni angen ei wneud.



Yna fe allwn ni weithio i gynyddu'r nifer o bobl anabl a phobl o leiafrifoedd ethnig sy'n cymryd rhan yn y celfyddydau.

# Y pethau y byddwn ni'n eu gwneud



Gwneud gwaith sydd wedi'i fwriadu ar gyfer pobl anabl a phobl o leiafrifoedd ethnig i'w helpu i gymryd rhan mewn celfyddyd.



Gwneud gwaith sydd wedi'i fwriadu ar gyfer pobl hŷn i'w helpu i gymryd rhan mewn celfyddyd.



Gwneud gwaith sydd wedi'i fwriadu ar gyfer plant, pobl ifainc a theuluoedd i'w helpu i gymryd rhan mewn celfyddyd. Yn enwedig plant, pobl ifainc a theuluoedd o ardaloedd tlawd.



Gwneud yn siŵr bod y mudiadau rydyn ni'n eu cefnogi yn cael pobl o grwpiau gwarchodedig i gymryd rhan yn eu celfyddyd.

# Y ffordd y byddwn ni'n gwneud hyn



Fe fyddwn ni'n dal ati gyda'n gwaith sydd wedi'i fwriadu ar gyfer y grwpiau hyn.




Mae gennym ni brosiect o'r enw **Dysgu Creadigol Drwy'r Celfyddydau**. Mae'r gwaith hwn wedi'i fwriadu ar gyfer plant a phobl ifainc.



Mae gennym ni brosiect o'r enw **cARTrefu Cymru**. Mae'r gwaith hwn wedi'i fwriadu ar gyfer pobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi preswyl.



Rydyn ni wedi dechrau gwaith ar gynllun ar gyfer **Celfyddyd a Iechyd yng Nghymru**. Rydyn ni'n meddwl bod hyn yn bwysig iawn. Rydyn ni'n meddwl y bydd y gwaith hwn hefyd yn ein helpu i gyrraedd pobl o grwpiau gwarchodedig.



Rydyn ni'n rhoi arian i'w rhedeg i rai lleoliadau celfyddyd. Rydyn ni wedi bod yn ceisio ei gwneud hi'n haws defnyddio lleoliadau celfyddyd gyda'r arian hwn.



Ond does dim llawer wedi digwydd gyda hyn eto. Fe fyddwn ni'n cael adborth gan y lleoliadau ac yn meddwl beth arall y gallwn ni wneud.




Byddwn yn gwneud yn siŵr bod gan y mudiadau rydyn ni'n eu cefnogi gynllun ar gyfer cydraddoldeb. Fyddwn ni ddim yn rhoi arian iddyn nhw os nad oes ganddyn nhw gynllun.




Fe fyddwn ni'n eu cefnogi i gwrdd ag amcanion eu cynlluniau cydraddoldeb.



Fe fyddwn ni'n defnyddio ein sesiynau gwybodaeth ynghylch ariannu i ddysgu am faterion cydraddoldeb. Fe fyddwn ni'n gwneud yn siŵr bod pobl o grwpiau gwarchodedig yn dod i'r sesiynau hyn.




Fe fyddwn ni'n gwneud yn siŵr bod pobl yn gwybod am ein dogfennau **Arweiniad Cydraddoldeb** a **Lle Cyfartal**. Maen nhw'n rhoi cyngor a gwybodaeth ynglŷn â chydraddoldeb yn y celfyddydau.



Rydyn ni'n gweithio ar gychwyn prosiect i gael mwy o Sipsiwn, pobl y Romani a Theithwyr i gymryd rhan yn y celfyddydau.

# Geiriau anodd

### Amcanion cydraddoldeb

Mae ein hamcanion cydraddoldeb yn bethau pwysig y mae'n rhaid i ni eu gwneud er mwyn i'r celfyddydau fod yn decach i bawb.

### Bwrdd

Mae Bwrdd yn grŵp o bobl sy'n gwneud penderfyniadau ar gyfer mudiad ynglŷn â'r gwaith mae'r mudiad yn ei wneud a'r ffordd mae'r mudiad yn cael ei redeg.

### Deurywiol

Pobl sy'n cael eu denu gan ddynion a menywod.

### Hoyw

Dynion sy'n cael eu denu gan ddynion eraill.

### Grwpiau gwarchodedig

Mae grwpiau gwarchodedig yn grwpiau o bobl mae'r gyfraith yn eu hamddiffyn rhag cael eu trin yn annheg oherwydd pwy ydyn nhw. Er enghraifft, person sy'n cael ei drin yn annheg am ei fod yn ifanc.

### Lesbiaidd

Menywod sy'n cael eu denu gan fenywod eraill.

### Lleiafrifoedd ethnig

Mae pobl o leiafrifoedd ethnig yn bobl sy'n byw mewn lle ble mae'r rhan fwyaf o'r bobl eraill o wahanol hil.

### Trawsrywiol

Mae pobl drawsrywiol yn bobl sy'n cael eu geni fel un rhyw ond sydd am fyw fel y rhyw arall. Er enghraifft, gall person sy'n edrych fel dyn o'r tu allan deimlo fel menyw o'r tu mewn.